

**PWYLLGOR ADFER**  
**5 AWST 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Adfer Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd lau, 5 Awst 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Clive Carver, Geoff Collett, Paul Cunningham, David Healey, Patrick Heesom, Joe Johnson, Hilary McGuill, Vicky Perfect, a Kevin Rush

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Helen Brown

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Ian Roberts - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, Cynghorydd Billy Mullin - Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio, Ymgynghorydd Perfformiad Strategol, Rheolwr Refeniw, Uwch Reolwr Tai ac Asedau, Uwch Reolwr Tai ac Ataliaeth, Rheolwr Busnes – Tai ac Asedau, Rheolwr Budd-Daliadau, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Yr Amgylchedd a Chymdeithasol, a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**22. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**23. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15 Gorffennaf 2021. Cynigiodd y Cynghorydd Joe Johnson bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir ac fe eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Marion Bateman.

Materion yn codi

Tudalen 9, gofynnodd y Cadeirydd a oeddem wedi derbyn ymateb ynglŷn â risg CW06. Dywedodd yr Hwylusydd y byddai'r wybodaeth yn cael ei darparu cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**24. CYNLLUN BUSNES ADFER Y PORTFFOLIO GWASANAETHAU STRYD A CHLUDIANT**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio Gynllun Busnes Adfer ar gyfer y Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant. Fe soniodd am yr amcanion adfer oedd yn ymwneud â darparu gwasanaeth fel y manylir yn yr adroddiad, a dywedodd bod pob gwasanaeth bellach yn gwbl weithredol. Rhoddodd drosolwg

o'r risgiau adfer fel y manylir yn yr adroddiad a dywedodd bod 26 risg yn cael eu monitro ar hyn o bryd (3 yn goch, 3 yn oren, 3 yn felyn, 7 yn wyrdd a 14 wedi'u cau).

Mynegodd y Cynghorydd Marion Bateman bryderon ynglŷn â gohirio a blaenoriaethu cynlluniau oedd wedi'u trefnu o dan waith adeiladu priffordd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y byddai'n ceisio cael rhagor o wybodaeth ar ôl y cyfarfod am gynllun penodol yr oedd y Cynghorydd Bateman wedi'i grybwyll.

Rhoddodd y Cynghorydd Glyn Banks deyrnged i swyddogion a gweithwyr Gwasanaethau Stryd a Chludiant am eu gwaith a'u gwytnwch trwy gydol heriau'r pandemig.

Fe soniodd y Cynghorydd David Healey am effaith newid hinsawdd ar adnoddau ac adferiad gwasanaethau.

Gan ymateb i sylwadau a phryderon y Cynghorwyr Marion Bateman a David Healey, fe awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r materion a godwyd gael eu hatgyfeirio i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi. Fe eglurodd y Prif Weithredwr y byddai effaith cymhleth yr oedi â'r gadwyn gyflenwi ar raglenni cyfalaf (yn cynnwys pob cynllun) yn cael ei ystyried. Fe soniodd hefyd nad oedd yr adnoddau a'r ymrwymiad i newid hinsawdd a llifogydd yn cael ei effeithio gan y gwaith adfer ac roedd atal llifogydd, a chapasiti i ymateb yn cael ei wella ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Fe ymatebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio i gwestiynau gan y Cynghorydd Hilary McGuill ynglŷn â chofnodi data am frechu a hunan-ynysu ymysg gweithwyr rheng flaen. Dywedodd bod hunan-ynysu gan weithwyr yn cael ei gofnodi'n fisol er mwyn monitro ac asesu effaith y pandemig wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Fe eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd y Cyngor yn cael cadw cofnod o weithwyr oedd wedi cael eu brechu gan mai data preifat oedd hyn oedd yn eiddo i'r unigolyn. Gan ymateb i sylwadau'r Cynghorydd McGuill, fe awgrymodd bod adroddiad am effeithiau ar weithluoedd ar draws y Cyngor yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Fe awgrymodd y Cynghorydd Ian Roberts bod cyfarfod yn cael ei gynnal gyda Dŵr Cymru er mwyn ystyried eu rhaglenni modelu. Manteisiodd y Cynghorydd Roberts ar y cyfle i ddiolch i holl weithwyr Gwasanaethau Stryd a Chludiant am eu gwaith penigamp yn ystod y pandemig.

Gan ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Patrick Heesom, cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio i drafod y materion a godwyd ynglŷn â chludiant gyda'r Cynghorydd Heesom, gyda'r bwriad o ddatrys problemau lleol.

Fe soniodd y Cynghorydd am yr angen i dorri gwair ar leiniau glas a llwybrau cyhoeddus wrth ochr priffyrdd, a dywedodd bod hyn achosi cwynion gan y cyhoedd mewn rhai ardaloedd. Mynegodd y Cynghorydd Paul Cunningham bryderon hefyd am wrychoedd/ canghennau oedd yn hongian drosodd ar lwybrau troed cyhoeddus.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio sicrwydd bod darpariaeth gwasanaeth llawn yn ailgychwyn o fewn cyfyngiadau'r polisïau ac atodlenni sydd yn eu lle cyn Covid-19.

Cynigiodd y Cynghorydd Marion Bateman bod effaith y pandemig ar flaenoriaethu cynlluniau priffyrdd yn cael eu hatgyfeirio i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi.

Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Ian Roberts, cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio i ddarparu costau i brynu/llogi glanhawyr cwteri ychwanegol, yn ogystal â chostau staffio am weithrediad 12 mis a'r goblygiadau ar Dreth y Cyngor.

Fe awgrymodd y Cadeirydd bod y materion penodol a godwyd am effaith y pandemig ar gynlluniau priffyrdd, glanhau cwteri, torri gwair a llifogydd yn cael eu hatgyfeirio i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Hilary McGuill.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi cynnwys Cynllun Busnes Adfer y Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant;
- (b) Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor gan Gynllun Busnes Adfer y Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant;
- (c) Atgyfeirio'r canlynol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi:-
  - effaith y pandemig ar flaenoriaethu cynlluniau priffyrdd, gwagio cwteri, torri gwaith, a llifogydd.
- (d) Bod y canlynol yn cael ei atgyfeirio i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:-
  - cyflwyno adroddiad am effaith hunan-ynysu ar y gweithlu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid Corfforaethol ym mis Medi.
  - ystyried effaith y pandemig, oedi gyda chadwyni cyflenwi, a chwyddiant ar y rhaglen gyfalaf ym Mhwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

## **25. CYNLLUN BUSNES ADFER Y PORTFFOLIO TAI AC ASED AU**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) Gynllun Busnes ar gyfer y portffolio Tai ac Asedau. Dywedodd bod yna 47 risg presennol (6 coch, 23 oren, 5 melyn 9 gwyrdd, 4 wedi cau) a dywedodd bod y prif risgiau yn ymwneud ag incwm rhenti, digartrefedd a chyflenwadau deunydd crai.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog am y sefyllfa ddiweddaraf o ran gydag eiddo gwag. Dywedodd y Prif Swyddog bod yna tua 200 eiddo gwag yn stoc dai y Cyngor sydd angen cael eu hatgyweirio i gael eu defnyddio eto. Fe eglurodd bod y prinder presennol o gyflenwadau, deunyddiau a llafur adeiladu, a chostau cynyddol oherwydd y pandemig a Brexit yn debygol o gael effaith ar benderfyniadau yn y dyfodol i ymrwymo i gynlluniau cyfalaf a'r gallu i baratoi eiddo'n yn gyflym i'w defnyddio eto. Gan sôn am ystadau diwydiannol a masnachol y Cyngor, dywedodd mai ychydig iawn oedd yn wag ac roedd y galw ar y cyfan yn uchel iawn ym mhob deiliadaeth.

Gan ymateb i sylwadau pellach gan y Cadeirydd am incwm rhenti, dywedodd y Prif Swyddog bod yr incwm a ragwelir a fydd yn cael ei golli ar gyfer ei stoc dai yn 2%, oedd wedi'i fodelu mewn i'r cynllun busnes. Fe eglurodd bod hyn ar lefel uchel ar hyn o bryd a oedd yn effeithio ar y gwasanaeth Tai oedd yn cael ei ariannu'n benodol gan incwm rhenti.

Fe awgrymodd y Cadeirydd bod effaith y cynnydd mewn eiddo gwag, a rhent ddim yn cael ei dalu ar sefyllfa ariannol y portffolio, yn cael ei atgyfeirio i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Thai. Cytunodd y Pwyllgor i hyn. Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd David Healey a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Patrick Heesom.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi cynnwys Cynllun Busnes Adfer y Portffolio Tai ac Asedau;
- (b) Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor gan Gynllun Busnes Adfer y Portffolio Tai ac Asedau;
- (c) Atgyfeirio'r canlynol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned, Tai ac Asedau:-
  - effaith cynnydd mewn eiddo gwag a pheidio â thalu rhent ar sefyllfa ariannol y portffolio.

#### **26. ADFER TLODI A BREGUSRWYDD**

Cyflwynodd y Rheolwr Budd-Daliadau adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adferiad cymunedol, ar thema tlodi. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd bod grŵp tactegol wedi cael ei sefydlu yn rhan o'r gwaith ymateb i'r pandemig er mwyn ystyried effeithiau tlodi a bod yn ddiameddiffyn ar breswylwyr Sir y Fflint. Fe soniodd am y prif ystyriaethau fel y manylir yn yr adroddiad a chyfeiriodd at waith y grŵp tactegol, canlyniadau llwyddiannus, canolfan gefnogaeth Covid, taliadau hunan-ynysu, a grant caledi i denantiaid.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Marion Bateman at y sylw yn y wasg/cyfyngau yn ddiweddar ynglŷn ag eitemau'n cael eu dychwelyd i Amazon, ac awgrymodd y dylid cysylltu â warws dosbarthu Amazon ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a fyddai o bosibl yn gallu cynnig cefnogaeth i bobl mewn tlodi. Cytunodd y Rheolwr Budd-Daliadau y byddai'n ymchwilio i hyn.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r rhaglen waith bresennol a sefydlwyd i gefnogi ac amddiffyn preswylwyr sydd yn ddi-amddiffyn neu sydd mewn tloedi, fel rhan o'r adferiad cymunedol.

Canmolodd y Cynghorydd Vicky Perfect y Rheolwr Budd-Daliadau a'i thîm am gyflenwi 46,800 o brydau bwyd i aelwydydd oedd yn cael eu gwarchod neu'n ddi-amddiffyn yn ystod y pandemig. Fe soniodd hefyd am lwyddiant sesiynau 'Fit, Fed and Read' yng Nghastell Y Fflint oedd yn boblogaidd iawn.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn ag ailddiffinio gwasanaethau, fe eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau bod hyn yn golygu rhagor o gydweithio gyda sefydliadau partner. Gan ymateb i gwestiwn pellach gan y Cadeirydd am gefnogaeth i bobl oedd ag ôl-ddyledion rhent, fe soniodd y Rheolwr Budd-Daliadau am y Taliad Dewisol Tai i bobl sy'n derbyn budd-daliadau, a'r Grant Caledi oedd yn rhoi cefnogaeth i denantiaid mewn llety rhent preifat.

Cytunwyd y byddai dolen i gynllun cefnogaeth ôl-ddyledion rhent yn y sector preifat yn cael ei ddsbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

Gan ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Hilary McGuill ynglŷn â galluogi pobl sydd wedi cael eu cefnogi yn ystod y pandemig i gael eu hannibyniaeth yn ôl, fe eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau bod yr holl raglenni wedi'u dylunio, trwy gydweithio â sefydliadau partner, i gefnogi pobl yn ystod argyfwng Covid-19 ac i gael eu meinhau yn raddol pan fyddant yn gallu cefnogi eu hunain.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Paul Cunningham ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Joe Johnson.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod yr Aelodau'n cefnogi'r rhaglen waith bresennol a sefydlwyd i gefnogi ac amddiffyn preswylwyr sydd yn ddi-amddiffyn neu sydd mewn tloedi, fel rhan o'r adferiad cymunedol.

## **27. DIWEDDARIAD AM ADFERIAD RHANBARTHOL (AR LAFAR/CYFLWYNIAD)**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar lafar am waith ar lefel rhanbarthol a chyfeiriodd at y prif faterion oedd yn ymwneud â brechu a chapasiti ym maes gofal cymdeithasol.

Yn ôl y Prif Weithredwr, yn seiliedig ar ragamcanion presennol o fewn y pythefnos nesaf, bydd 85% o boblogaeth Gogledd Cymru wedi cael dau dds o'r brechlyn. Mae hyn yn seiliedig ar y boblogaeth sydd wedi cael eu brechu a'r rhai sydd wedi trefnu i gael brechlyn yn y rhanbarth. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi gosod targed o 80% ar draws Cymru er mwyn symud i lefel rhybudd sero. Fe soniodd y Prif Weithredwr hefyd bod 75% o'r rhai 18-39 oed wedi cael eu brechu. Roedd canolfannau galw heibio i gael brechlyn dal i fod ar gael, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y rhaglenni atgyfnerthu allai fod yn weithredol yng Ngogledd Cymru o ddechrau mis Medi.

Gan gyfeirio at gapasiti ym maes gofal cymdeithasol, fe eglurodd y Prif Weithredwr bod diffygion yn dod i'r amlwg yng ngallu'r gweithlu ar gyfer gofal cymdeithasol. Fe eglurodd bod nifer o resymau am hyn, a dywedodd ei fod yn effeithio ar y gallu i ddal fyny â'r galw ym maes gofal cartref a dywedodd bod rhai pecynnau'n cael eu lleihau o ganlyniad. Roedd yna bryder hefyd ynglŷn â recriwtio a chadw yn y sector annibynnol ar gyfer gofal preswyl oedd yn effeithio ar iechyd ac oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty. Dywedodd mai'r un yw'r sefyllfa mewn rhannau eraill o Gymru a'r Deyrnas Unedig, ac roedd datrysiadau'n cael eu hystyried.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, dywedodd y Prif Weithredwr y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cysylltu â phobl yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt am y rhaglen atgyfnerthu.

Gan ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Hilary McGuill ynglŷn â brechu unigolion 16-17 oed cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y grŵp oedran yma'n cael ei ychwanegu at y rhaglen frechu gyffredinol, a bydd y gwaith yn dechrau gyda BIPBC i'w weithredu cyn gynted ac mor ymarferol ag sy'n bosibl.

Canmolodd y Cynghorydd Marion Bateman y modd y mae'r rhaglen frechu wedi cael ei chyflwyno. Fe soniodd am lefel sero a gofynnodd pryd fyddai hyn yn cael ei weithredu. Dywedodd y Prif Weithredwr bod disgwyl cyhoeddiad gan y Prif Weinidog yfory, a bod disgwyl iddo ddigwydd ym mis Awst.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cael sicrwydd gan y newyddion diweddaraf a roddwyd gan y Prif Weithredwr.

## **28. DIWEDDARIAD AR SEFYLLFA'R PANDEMIG / ENDEMIG A RHAGOLYGNON (AR LAFAR/CYFLWYNIAD)**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar lafar am sefyllfa'r pandemig / endemig a'r rhagolygon. Dywedodd bod asesiadau risg manwl yn cael eu cynnal yn adeiladau'r Cyngor yn Neuadd y Sir, Ewlo, Y Ffint ac Alltami gyda'r bwriad o weld y gweithlu yn dychwelyd i swyddfeydd yn y dyfodol. Fe eglurodd bod modelau hybrid o weithio yn cael eu hystyried a bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu gydag Aelodau yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Rhoddodd y Prif Weithredwr eglurhad am nifer yr achosion presennol yn Sir Fflint, a dywedodd eu bod yn gostwng. Cyfeiriodd hefyd at y sefyllfa bresennol ar brofi a dywedodd bod llai o bobl yn cael eu profi ac felly roeddem yn gwybod am lai o achosion o Covid. Dywedodd bod cyfradd y rhai sy'n cael canlyniad positif yn Sir y Fflint yn 13.1% (13 allan o 100 prawf yn cael canlyniad positif). Roedd y gwasanaeth iechyd o dan bwysau cynyddol yn sgil y galw ar wasanaethau a bod gwasanaethau yn ailgychwyn. I grynhoi, amlinellodd y Prif Weithredwr y rhagolygon ar gyfer y misoedd nesaf.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hilary McGuill ynglŷn â phrofi gweithwyr ar gyfer Covid-19, fe eglurodd y Prif Weithredwr na allai'r Cyngor orfodi gweithwyr i gael eu profi'n rheolaidd. Serch hynny, mewn rhai

gwasanaethau roedd angen i weithwyr gael eu profi'n rheolaidd yn sgil natur eu gwaith a defnyddiodd y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fel enghraifft. Fe soniodd am y canolfannau profi galw heibio teithiol yn Neuadd y Sir ac Alltami ar gyfer gweithwyr a'r cyhoedd, a dywedodd bod y rhai sydd wedi derbyn y gwasanaeth a'r adborth wedi bod yn bositif. Os ydi unrhyw weithiwr wedi cael prawf positif neu wedi cael gwybod eu bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif, roedd rhaid iddynt ddilyn canllawiau Profi, Olrhain a Diogelu ar hunan-ynysu.

Gan ymateb i gwestiwn arall gan y Cynghorydd McGuill am brofi staff addysgu ac ategol mewn ysgolion, fe eglurodd y Prif Weithredwr eu bod wedi derbyn canllawiau cyffredinol am ailagor ysgolion gan y Prif Weinidog, ond roeddynt dal i aros am fanylion am brofi.

**29. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A'R RHESTR O GYFARFODYDD (AR LAFAR)**

Fe soniodd y Prif Weithredwr am yr adroddiadau canlynol a fydd yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 9 Medi.

- Amcanion Adferiad Corfforaethol;
- Proffil Risg Adferiad Corfforaethol;
- Risgiau a Materion o fewn Portffolios
- Dyrannu Risgiau i Bwyllgorau
- Diweddariad am Adferiad Rhanbarthol
- Diweddariad am Adferiad Cymunedol
- Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol
- Materion cyffredinol yn y gweithlu a risgiau mewn perthynas ag agor ysgolion ym mis Medi a chapasiti gofal cymdeithasol
- Cynnwys Covid Hir yn yr adroddiad gweithlu a fydd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Cafodd hyn ei gynnig gan y Cadeirydd Hilary McGuill a'i eilio gan y Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

Cytuno ar yr eitemau ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 9 Medi 2021.

**30. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.15 pm)

.....  
**Y Cadeirydd**